OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 398 (Cy.48)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DIWYDIANNAU DA BYW

Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) (Diwygio) 2013

Gwnaed - - - -	*21 Chwefror 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*25 Chwefror 2013*
Yn dod i rym - -	*18 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 10 o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac yn dod i rym ar 18 Mawrth 2013.

Diwygiadau i Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008

2. Diwygir Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(**2**) yn unol â'r Rheoliadau canlynol.

Dehongli

3. Ym mharagraff (1) o reoliad 2, ar ôl y diffiniad o "mangre sydd heb ei thrwyddedu" mewnosoder—

"ystyr "mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu" ("*unlicensed processing premises*") yw mangre sydd heb ei thrwyddedu—

(a) ar gyfer prosesu semen—

(i) a gasglwyd mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu neu ganolfan gasglu ddomestig, a

(**1**) 1984 p. 40; diwygiwyd adran 10 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p.50) a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44). Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd o dan y Ddeddf i'r "appropriate Minister", i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, erthygl 2, Atodlen 1, (O.S. 1999/672), ac y maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**2**) O.S. 2008/1040 (Cy. 110).

(ii) nas bwriedir ar gyfer y fasnach ryng-Gymunedol, a

(b) a oruchwylir gan filfeddyg canolfan o ganolfan gasglu CE;".

Cymeradwyo anifeiliaid buchol i'w defnyddio mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu

4.—(1) Ym mharagraff (1) o reoliad 10, hepgorer ", neu ei ddefnyddio fel anifail ymlid,".

(2) Ym mharagraff (4) o reoliad 10, hepgorer "neu'r anifail ymlid a ddefnyddiwyd i gasglu'r semen hwnnw".

Dyletswyddau penodol milfeddygon canolfannau a gweithredwyr mangreoedd sydd heb eu trwyddedu

5. Yn rheoliad 16, ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i ddyletswyddau milfeddyg canolfan mewn canolfan gasglu CE, a bennir ym mharagraff (1B), gael eu cyflawni hefyd, gan y milfeddyg hwnnw, pan fo'n goruchwylio mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu.

(1B) Y dyletswyddau yw'r rhai a bennir yn y darpariaethau canlynol o Ran 3 o Atodlen 3—

(a) is-baragraffau (ch), (d) ac (dd) o baragraff 1; a

(b) is-baragraff (b) o baragraff (2).".

Defnyddio anifeiliaid ymlid

6. Yn lle rheoliad 21 rhodder—

"**Defnyddio anifeiliaid ymlid**

21.—(1) Ni chaiff neb ddefnyddio anifail ymlid i gynorthwyo gyda chasglu semen oni fydd yr anifail hwnnw wedi ei gymeradwyo at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(2) Ond ni fydd cymeradwyaeth o'r fath yn ofynnol ar gyfer anifail ymlid a ddefnyddir i gynorthwyo gyda chasglu semen mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu.".

Prosesu semen

7. Yn rheoliad 24, yn lle paragraffau (a) a (b) rhodder—

"(a) mewn canolfan gasglu CE;

(b) mewn canolfan gasglu ddomestig; neu

(c) mewn mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu.".

Cyflenwi semen rhewedig

8. Yn rheoliad 28, ym mharagraff (2), yn lle "yw wedi ei storio" rhodder "oedd y semen rhewedig wedi ei storio yn flaenorol".

Y mesurau sy'n gymwys i ganolfannau casglu CE

9. Yn Atodlen 3, ym mharagraff 2 o Ran 1, yn lle "dogn" rhodder "casgliad".